Annwyl PCAC,

Rydym yn ysgrifennu i fynegi ein pryder am ddatblygiadau a gynigir am fferm solar arfaethiedig yn ardal pentref Llanedi. Pentref mewn lleoliad gwledig yw Llanedi, gyda chyfran sylweddol o siaradwyr Cymraeg sy'n cyfrannu at ddiwylliant cyfoethog ac amrywiol Cymru. Mae fferm solar eisoes yn bodoli yng Nghlawdd Ddu a chynigir datblygu fferm solar newydd ger Tŷ Croes a chynnig pellach i ddatblygu fferm solar newydd ym Mryn Hyfryd. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn bygwth troi ein lleoliad gwledig presennol gyda thir ffermio a bioamrywiaeth cynhyrchiol, yn dir diffaith diwydiannol a fydd yn bodoli am y 40 mlynedd nesaf o leiaf. Yn ein barn ni, prin yw'r sicrwydd bydd y digomisiynu hyn, hyd yn oed yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod hwn.

Rydym yn gefnogwyr brwd mewn ynni gwyrdd ac yn gefnogwyr i'r frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd, ond credwn nad datblygiadau enfawr sy'n gorchuddio cannoedd o erwau o dir ffermio hyfyw gyda phaneli solar yw'r ffordd ymlaen. Mae datblygiadau bach lluosog a defnyddio paneli ar doeau yn fwy tebygol o warchod lleoliadau gwledig, gwarchod bioamrywiaeth a chyfrannu at frwydro yn erbyn cynhesu byd-eang.

Er ein bod yn poeni am yr effaith weledol a cholli'r amwynder y bydd y pentref yn ei ddioddef, credwn y bydd y cynefin lleol yn cael ei ddinistrio heb ei wella. Bydd y pori gan ddefiad sydd yn cael ei argymell o amgylch y paneli yn dinistrio bioamrywiaeth ymhellach. Mae barcutiaid coch, aderyn cenedlaethol Cymru, yn hedfan o amgylch ein pentref yn aml. Maent yn symbol o fioamrywiaeth ac mae eu goroesiad yn y lleoliad hwn yn dibynnu ar gynnal a gwella'r tirwedd leol.

Mae'n ymddangos bod y cynllun hwn o fudd i'r datblygwyr yn unig. Mae'n anodd gweld y bydd unrhyw fudd parhaus i bentref Llanedi, heb sôn am Sir Gaerfyrddin na Chymru. Unwaith eto, bydd pentref arall yng Nghymru yn cael ei aberthu er mwyn elw.

Nid ydym yn credu bod gan y datblygwyr unrhyw ddealltwriaeth o bwysigrwydd cadw bywyd pentref gwledig Cymru gyda phopeth y mae'n ei olygu gan gynnwys hyrwyddo a chadw ein hiaith genedlaethol.

Mae'r llythyr hwn yn mynegi ein teimladau. Rydym yn ymwybodol o'r gwrthwynebiadau technego,l yr ydym yn eu cefnogi ac rydym yn bwriadu ymgyrchu'n frwd yn erbyn y datblygiad cwbl ddinistriol hwn.

Rydym yn dymuno gwrthwynebu'r cynigion yn eu cyfanrwydd.

Yr eiddoch yn gywir,

Dr Mark Owen Vaughan a Marian Wyn Vaughan

Dear PEDW,

We write to express our concern about the proposed solar farm developments in the area of Llanedi village. Llanedi is a village in a rural location with a significant portion of welsh-speakers which contributes to the rich culture and diversity of Wales. There is already an existing solar farm at Clawdd Ddu and it is proposed to develop a new solar farm near Ty Croes and a further proposal to developing new solar farm in Bryn Hyfryd. Cumulatively, these developments threaten to turn the existing rural location, with productive farmland and biodiversity, into an industrial wasteland which will exist for at least the next 40 years. In our view there is precious little reassurance the decommissioning will even take place at the end of this period.

We are supporters of green energy and supporters of the fight against climate change but we believe that huge developments covering hundreds of acres of viable farming land with solar panels are not the way forward. Multiple small developments and rooftop use of panels are more likely to preserve rural locations, preserve biodiversity and contribute to combating global warming.

Although we are concerned about the visual impact and the loss of amenity that the village will suffer, we believe that the local habitat will be destroyed not enhanced. The proposed grazing of sheep around the panels will further destroy biodiversity. Red kites, the national bird of Wales frequently fly around our village. They are emblematic of biodiversity and their survival in this location depends on maintaining and enhancing the local landscape.

This development only seems to benefit the developers. It is hard to see that there will be any ongoing benefit to the village of Llanedi, let alone Carmarthenshire or Wales. Once again, a village in Wales will be sacrificed on the altar of profit.

We do not believe that the developers have any understanding of the importance of preserving welsh rural village life, with all that it entails, including the promotion and preservation of our national language.

This letter expresses our feelings. We are aware of the technical objections, which we support and we intend to vigorously campaign against this wholly destructive development.

We wish to object to the proposals in their entirety.

Yours sincerely,

Dr Mark Owen Vaughan and Marian Wyn Vaughan